| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Archwilio** |
| DYDDIAD: | **12 Mawrth 2009** |
| TEITL: | **Cynllun Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd 2008/09 – Agweddau Ariannol** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno, er gwybodaeth, bwriad Swyddfa Archwilio Cymru o ran eu gwaith archwilio ariannol am y flwyddyn nesaf.** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**1.** Gweler ar y papur dilynol Cynllun Rheoleiddio 2008/09 Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd.

**2.** Tra cyflwynir y cyfan o Gynllun Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru yma i'r Pwyllgor Archwilio, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ganolbwyntio ar yr agweddau ariannol o'r cynllun.

**3.** Gall yr agweddau perthnasol canlynol o'r cynllun fod o ddiddordeb i aelodau'r Pwyllgor Archwilio:

- Rhagarweiniad ynglŷn â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn Cyngor Gwynedd ar dudalennau 4-5, paragraffau 1-10.
- Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon Cyngor Gwynedd ar dudalennau 5-7, paragraffau 11-15, ac yn arbennig 'Arddangosyn 2' ynglŷn â Chyfrifon Ariannol y Cyngor.
- Archwiliad ac ardystiad Swyddfa Archwilio Cymru o hawliadau grant ar dudalen 11, paragraffau 28-29.
- Rhestrir Tîm Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodiad 1 ar dudalen 13.
- Rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys dyletswyddau statudol archwilwyr penodedig a chyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (h.y. y Pwyllgor Archwilio yn Cyngor Gwynedd) o dan 'ISA 260' ar dudalennau 14-15.

**4.** Cyflwynir y Cynllun Rheoleiddio yma hefyd i Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol y Cyngor, lle bydd trafodaethau parthed agweddau gwerth am arian, archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor, archwiliad o Berfformiad, arolygiadau ar wahân i'r archwiliad ariannol, a gwaith arall Swyddfa Archwilio Cymru.

**5.** Bydd Partner Ymgysylltu Archwiliad Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, Kevin Thomas, a'r Rheolwr Lleol, Amanda Hughes, yn bresennol er mwyn ymateb i unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

2008-09

Chwefror 2009

Awduron: Huw Lloyd Jones a Kevin Thomas Cyf: 215A2009

# Cynllun Rheoleiddio 2008-09

# Cyngor Gwynedd

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yng Nghyngor Gwynedd** | 4 |
| Archwilio cyfrifon | 5 |
| Casgliad ar drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian | 8 |
| Archwilio eich Cynllun Gwella | 8 |
| Archwilio, arolygu ac astudiaethau perfformiad | 9 |
| Ardystio ceisiadau am grant a ffurflenni | 11 |
| Gwaith arall Swyddfa Archwilio Cymru | 12 |
| Gwaith rheoleiddwyr eraill | 12 |
| **Atodiadau** | |
| Y Tîm Rheoleiddio | 14 |
| Rolau a chyfrifoldebau | 15 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiad o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yng Nghyngor Gwynedd

1. Y Rheolwr Cydberthynas sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r holl waith archwilio ac arolygu mewn Cyrff Llywodraeth Leol penodol. O ganlyniad,
mae'r Rheolwr Cydberthynas wedi paratoi'r Cynllun Rheoleiddio hwn yn nodi'r gwaith i'w gyflawni gan ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol a chan ei archwilwyr penodedig. Mae hefyd yn ymdrin â gwaith Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Estyn. Ategir y Cynllun gan Gynllun Cyfrifon Ariannol manylach a chyda gwybodaeth ychwanegol am gwmpas astudiaethau perfformiad ac arolygu fel y cytunir ar y rhain yn ystod y flwyddyn.
Rydym wedi cynllunio rhaglen waith i fynd i'r afael â'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol sy'n effeithio ar ein cyfrifoldebau.
2. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar y prif feysydd canlynol:
   - archwilio'r cyfrifon;
   - casgliad yr archwilydd o ran p'un a oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i gyflawni gwerth am arian;
   - archwiliad o'r Cynllun Gwella;
   - gwaith archwilio perfformiad (gwerth am arian);
   - arolygiad;
   - Astudiaethau Cymru Gyfan.
3. Mae holl aelodau'r tîm archwilio, arolygu a rheoleiddio yn annibynnol ar Gyngor Gwynedd (y Cyngor) a'ch swyddogion. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i ni dynnu eich sylw ato.
Nodir enwau cyswllt priodol yn Atodiad 1.
4. Nodir rolau a chyfrifoldebau'r tîm rheoleiddio yn Atodiad 2.
5. Byddwn mewn cyswllt agos â'r Cyngor:
   - wrth gwblhau'r Cynllun Cyfrifon Ariannol manylach a byddwn yn eich hysbysu'n rheolaidd o unrhyw risgiau neu faterion wrth iddynt godi;
   - o ran amseriad, cwmpas a'r broses o gyflawni'r gwaith perfformiad, a all gymryd mwy nag un cylch archwilio i'w gwblhau.
6. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith wedi'i gynllunio'n briodol, a gall fod angen gwneud newidiadau i'r Cynllun os bydd unrhyw risgiau newydd sylweddol yn codi. Ni weithredir unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
7. Y ffi ar gyfer 2008-09 yw £338,970 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2008 a mis Hydref 2009. Mae'r ffi hon yn unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n gynnydd o 3.8 y cant o gymharu â'r ffi yn 2007-08. Nodir ein ffi yn Arddangosyn 1.

8. Mae cynnydd eleni yn adlewyrchu ein barn, sy'n seiliedig yn bennaf ar waith arolygu diweddar a'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor, bod lefel y risg i reolwyr a'r ddarpariaeth o wasanaethau wedi cynyddu ychydig.

**Arddangosyn 1: Y ffi**

| | Ffi 2007-08<br>£ | Ffi arfaethedig 2008-09<br>£ |
|---|---:|---:|
| Cyfrifon* | 168,454 | 175,709 |
| Archwilio perfformiad | 77,630 | 79,961 |
| Arolygu perfformiad | 80,490 | 83,300 |
| ***Cyfanswm*** | ***326,574*** | ***338,970*** |

**Rydym wedi addasu ffi 2007-08 ar gyfer yr elfen a oedd yn ymwneud ag archwilio Cronfa Bensiwn Gwynedd, y codir tâl ar wahân amdani yn 2008-09. Gwnaethom hyn i ganiatáu cymhariaeth rhwng y ddwy flwyddyn.*

9. Byddwn yn llunio Calendr Rheoliadol yn dangos yr holl waith presennol neu waith arfaethedig sydd i'w gyflawni gan y rheoleiddwyr yn y Cyngor. Byddwn yn ei rannu â'r Cyngor a'r holl reoleiddwyr ac yn ei ddiweddaru'n chwarterol.

10. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penodi Anthony Snow fel yr Archwilydd Penodedig i'r Cyngor.

## Archwilio cyfrifon

11. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gyhoeddi adroddiad archwilio ar y Datganiadau Ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- A yw'r Datganiadau Ariannol yn rhoi darlun teg o sefyllfa'r Cyngor. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd bod y Datganiadau Ariannol:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill;
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- A yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol wedi'i gyflwyno yn unol â gofynion perthnasol ac nad yw'n anghyson â'n gwybodaeth am y Cyngor.

12. Er mwyn cyhoeddi'r adroddiad archwilio ar y Datganiadau Ariannol, rhaid i'r Archwilydd Penodedig sicrhau y nodir ac yr eir i'r afael â'r holl risgiau archwilio sy'n gysylltiedig â'r uchod. Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r risgiau, a nodir y rhain yn Arddangosyn 2 Cyfrifon Ariannol.

**Arddangosyn 2: Cyfrifon Ariannol**

| Risg Cyfrifon Ariannol | Cwestiynau allweddol |
|---|---|
| Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU - Datganiad o Arfer a Argymhellir yn cyflwyno newidiadau pellach i drefniadau cyfrifyddu Awdurdodau Lleol o 1 Ebrill 2008. Er nad yw'r newidiadau yn sylweddol, maent yn cynnwys y canlynol:<br>• newidiadau i seiliau mesur Safon Adrodd Ariannol (FRS) 17 ar gyfer asedau cynllun pensiwn;<br>• mireinio'r rheolau sy'n ymwneud ag Offerynnau Ariannol;<br>• ni chaniateir ailbrisio asedau sefydlog ar adeg eu gwaredu. | A yw Datganiadau Ariannol y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol a gofynion cymwys eraill, yn cynnwys y Datganiad newydd o'r Arfer a Argymhellir? |
| Rhaid i'r Cyngor gwblhau pecyn cyfuno i gefnogi'r broses o gyfuno cyfrifon adnoddau sector cyhoeddus, a fydd yn cael eu paratoi o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ar gyfer 2008-09.<br>Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu sut y cyflawnir hyn hyd yma, er y gobaith yw y gwneir addasiad 'canolog' ar gyfer y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, yn hytrach nag ar lefel leol gan bob Cyngor. | A yw pecyn Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan y Cyngor ar gyfer 2008-09 yn cyflwyno gwybodaeth ariannol yn deg? |
| Bydd y Cyngor yn newid i gyfrifyddu o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol o'r flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2011.<br>Fel rhan o'r broses newid bydd y fantolen ar gyfer 31 Mawrth 2009 yn ffurfio sefyllfa agoriadol y fantolen ar gyfer cyfrifon cyntaf y Cyngor o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Rydym yn disgwyl y cynhelir ymarfer ar ôl cau cyfrifon 2009 i drawsnewid y fantolen hon i gydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. | A oes gan y Cyngor y prosesau a'r gweithdrefnau priodol ar waith yn barod ar gyfer mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol? |
| Mae'r Cyngor wedi cau safle gwaredu gwastraff yn ystod y flwyddyn ariannol 2008-09.<br>Mae'r Cyngor bellach yn wynebu costau capio ac ôl-ofal sylweddol yn y dyfodol agos, y tymor canolig a'r hirdymor. Bydd angen i'r Cyngor wneud darpariaethau cyfrifyddu priodol ar gyfer y costau hyn. | A yw'r Cyngor wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith i ddarparu ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol sy'n ymwneud a'r costau capio ac ôl-ofal yn ei safleoedd gwaredu gwastraff? |

| Risg Cyfrifon Ariannol | Cwestiynau allweddol |
|---|---|
| Bydd Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf, sef cwmni gwaredu gwastraff ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, yn dod i ben yn 2008-09, a chaiff ei asedau a'i rwymedigaethau sy'n weddill eu dosbarthu rhwng y ddau Gyngor.<br>Rhaid i'r Cyngor roi cyfrif cywir am yr asedau a'r rhwymedigaethau y mae'n eu derbyn o'r Cwmni, a defnyddio unrhyw adnoddau a ddyrannwyd o'r Cwmni yn ddarbodus. | A yw'r Cyngor wedi rhoi cyfrif cywir am yr asedau a'r rhwymedigaethau gweddillol o Gwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf, ac a yw wedi bod yn ddarbodus yn ei ddefnydd o adnoddau mewn perthynas â'r asedau a ddyranwyd gan y Cwmni? |
| Mae gan y Cyngor adnau sy'n ddyledus mewn is-gwmni yn y DU o un o fanciau Gwlad yr Ia. Gall gwerth cario'r ased ariannol hwn fod yn fwy na'r swm amcangyfrifedig a ellir ei adennill a gall fod lleihad.<br>Bydd angen i'r Cyngor amcangyfrif faint o swm y buddsoddiad y gellir ei adennill, a phenderfynu a oes lleihad. Rhaid rhoi cyfrif cywir am y lleihad ar draws y cronfeydd perthnasol (Cronfa'r Cyngor, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Bensiwn). | A yw'r Cyngor wedi asesu p'un a yw ei ased ariannol wedi'i leihau ac, os felly, a yw wedi rhoi cyfrif priodol amdano? |
| Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn effeithio ar y Cyngor o ran ei gyllid a'i sefyllfa ariannol ei hun ac ar y galw am wasanaethau (sydd yn ei dro yn cael effaith bellach ar ei gyllid). | Beth ydy'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi o ganlyniad i'r sefyllfa economaidd bresennol, a sut ydy'r Cyngor yn rheoli ei sefyllfa ariannol? |

13. Bydd yr Archwilydd Penodedig yn diweddaru'r asesiad risg hwn yn ystod y flwyddyn a bydd yn llunio Cynllun Cyfrifon Ariannol manylach cyn i unrhyw waith gael ei gwblhau.

14. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad mandadol i archwilio enillion effeithlonrwydd a ddatganwyd ar gyfer naill ai 2007-08 neu 2008-09. Fodd bynnag, efallai y bydd yr Archwilydd Penodedig am adolygu trefniadau awdurdod neu gynnal gwaith dilynol ar ganfyddiadau cynharach fel rhan o waith archwilio sy'n seiliedig ar risg. Caiff unrhyw amheuon o ran y ffordd y mae awdurdod yn cyflwyno adroddiadau am enillion effeithlonrwydd eu cofnodi yn y Llythyr Blynyddol.

15. Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

## Casgliad ar drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian

16. Mae gan yr Archwilydd Penodedig ddyletswydd i fodloni ei hun bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Prif ffocws y gwaith hwn o hyd fydd adolygu'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol allweddol y mae'n ofynnol i chi eu rhoi ar waith fel rhan o'ch system rheolaeth fewnol.

17. Bydd adolygiad yr Archwilydd Penodedig o'ch trefniadau yn cynnwys yr agweddau canlynol:
    - amcanion strategol a gweithredol;
    - llunio polisi a gwneud penderfyniadau;
    - diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr;
    - rheolaethau mewnol;
    - rheoli risg;
    - gwerth gorau;
    - rheoli adnoddau;
    - rheoli perfformiad;
    - safonau ymddygiad.

18. Bydd casgliad yr Archwilydd Penodedig ar fodolaeth eich trefniadau yn defnyddio, yn bennaf, dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwaith archwilio arferol ar holl feysydd y Cod. Bydd y casgliad hefyd yn ystyried unrhyw ffynonellau tystiolaeth perthnasol eraill sydd ar gael, megis canlyniadau astudiaethau o berfformiad lleol ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

19. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi, gyda'i ddatganiadau ariannol, ddatganiad a wnaed gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn ymwneud â'u hadolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol.

## Archwilio eich Cynllun Gwella

20. Mewn perthynas â'ch Cynllun Gwella, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gyhoeddi adroddiad:
    - yn tystio ei fod wedi archwilio'r Cynllun;
    - yn datgan p'un a yw o'r farn i'r Cynllun gael ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol ag adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (Deddf 1999) ac unrhyw orchymyn neu ganllawiau o dan yr adran honno;
    - yn argymell, os yw'n briodol, sut y dylid ei ddiwygio er mwyn cydymffurfio ag Adran 6 ac unrhyw orchymyn neu ganllawiau o dan yr adran honno;
    - yn argymell, os yw'n briodol, ba weithdrefnau y dylai'r Cyngor eu dilyn mewn perthynas â'r Cynllun;
    - yn argymell a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad gwerth gorau o'r Cyngor o dan Adran 10A o Ddeddf 1999;
    - yn argymell a ddylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan Adran 15 o Ddeddf 1999.

# Archwilio, arolygu ac astudiaethau perfformiad

21. Ni chaiff gwaith archwilio, arolygu ac astudiaethau perfformiad a gynhelir ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ei gwblhau o fewn un cylch archwilio bob tro. Mae blaenraglen yr Archwilydd Cyffredinol yn hyblyg ac yn ymatebol i newidiadau allanol.

22. Cyflwynir adroddiad ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn y Llythyr Blynyddol i'r Cyngor a gyflwynir gan y Rheolwr Cydberthynas a'r Archwilydd Penodedig.

### Archwilio Perfformiad

23. Rhestrir y risgiau a nodwyd (yn lleol ac yn genedlaethol) fel rhan o'r asesiad risg yn Arddangosyn 3.

**Arddangosyn 3: Gwaith Archwilio Perfformiad**

| Archwilio Perfformiad ar sail Risg | |
|---|---|
| **Risg** | **Cwestiynau Allweddol** |
| **Asesiad Risg ar y Cyd**<br>Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal asesiad risg blynyddol a chytuno ar y canlyniadau gyda'i reoleiddwyr. Gall methiant i gyflawni'r dasg hon olygu bod y Cyngor yn wynebu risgiau gwasanaeth a risgiau corfforaethol nas nodwyd, a sefydlu blaenoriaethau gwella sy'n anghywir. | A yw'r Cyngor wedi cwblhau ei asesiad risg sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol yn effeithiol? |
| **Cymorth a her craffu**: Mae effeithiolrwydd y trefniadau craffu yn amrywio ar hyn o bryd, ac mae'r trefniadau ar gyfer craffu ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar gam cynnar yn eu datblygiad. Mae gwendidau o ran craffu ar bolisi a pherfformiad yn peri risg o ran gwella canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid a'r gymuned. | A yw Pwyllgorau Craffu a'r Gweithgorau cysylltiedig yn effeithiol yn y rolau a fwriadwyd ar eu cyfer? |
| **Rheoli prosiect**: Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd cynyddol o dechnegau rheoli prosiect i gynllunio a gweithredu newidiadau mawr. | A yw adnoddau rheoli prosiect yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol o ran cyflawni prosiectau? |
| **Ymateb i'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl**: Erys llawer i'w wneud mewn ymateb i ofynion y Ddeddf a'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2006. | A yw'r Cyngor yn cymryd camau digonol i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl? |
| **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu:** Caiff ffocws y gwaith ei benderfynu ar ôl cynllunio pellach | I'w gadarnhau |
| **Adnoddau Dynol:** Parhau â gwaith 2007-08 i gefnogi'r newidiadau a gyflwynir gan y Cyngor. | A yw'r broses o gyflwyno trefniadau gweithio hyblyg yn cael ei rheoli'n effeithiol? |

### Arolygiadau

24. Nodir y meysydd ar gyfer gwaith arolygu yn Arddangosyn 4.

25. Fel rhan o fenter Llywodraeth y DU i symleiddio arolygiaethau, Swyddfa Archwilio Cymru fydd yn cynnal arolygiadau o wasanaethau Budd-daliadau Tai a'r Dreth Gyngor. Ariennir unrhyw weithgarwch arolygu yn llawn drwy'r grant Arolygu Budd-daliadau.

**Arddangosyn 4: Gwaith Arolygu Perfformiad**

| Arolygu Perfformiad ar sail Risg | |
|---|---|
| **Risg** | **Cwestiynau Allweddol** |
| **Rheoli Gwastraff**: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phedwar awdurdod arall yng Ngogledd Cymru i gaffael cyfleusterau trin gwastraff. Ceir risg y gallai'r angen i sicrhau canlyniadau cyflym beryglu'r broses o lywodraethu'r trefniadau partneriaeth yn effeithiol. | A yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu trefniadau partneriaeth ar gyfer trin a gwaredu gwastraff yn cael eu rheoli'n effeithiol? |
| **Gwaith dilynol ar Ddiogelu'r Arfordir:** Ceir rhwystrau sy'n cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynllunio a darparu'r gwasanaeth hwn. Mae adnoddau'n brin ac yn annhebygol o fod yn ddigonol ar gyfer argyfyngau neu i gyflawni cyfrifoldebau yn y dyfodol. | A yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran ei ymateb i argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008? |
| **Cymorth a her Gwasanaethau Cymdeithasol**: Noda canfyddiadau'r Adolygiad ar y Cyd bod angen i'r Cyngor fynd i'r afael â materion sylweddol, yn enwedig o ran cynllunio busnes a rheoli perfformiad. | A yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn glir, yn gynaliadwy, yn weithredol ac yn cyflawni eu diben bwriadedig? |
| **Gwasanaethau Tai:** Yn dilyn oedi cychwynnol, bydd y Cyngor yn cynnal pleidlais ymhlith tenantiaid o ran Trosglwyddo Stoc Tai yn Wirfoddol ar Raddfa Fawr yn ystod 2009. Tan fod y broses hon wedi'i chwblhau, erys cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn faes o risg uchel. Yn ogystal, mae ein gwaith yn 2007-08 wedi nodi lle i wella o ran ansawdd Strategaeth Dai'r Cyngor a'r broses o'i chyflawni. | A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd digonol tuag at gyflawni SATC a gweithredu ei Strategaeth Dai? |

| Arolygu Perfformiad ar sail Risg | |
|---|---|
| **Risg** | **Cwestiynau Allweddol** |
| **Adfywio**: Nododd ein gwaith adfywio yn 2007-08 nad oedd canlyniadau arfaethedig y Cyngor yn ddigon clir a bod diffyg cydgysylltu o ran cyfraniadau gwasanaethau'r Cyngor. Bydd ein gwaith yn 2008-09 yn adeiladu ar y canfyddiadau hyn drwy gynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu trefniadau llywodraethu priodol yn cynnwys nodi dangosyddion sy'n seiliedig ar ganlyniadau a mesuriadau ar gyfer ei weithgarwch adfywio. | A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau y caiff ei amcanion adfywio eu cyflawni'n llwyddiannus? |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus:** Mae'r Cyngor wedi nodi Trafnidiaeth Gyhoeddus fel maes o risg uchel; bydd strwythur trafnidiaeth gyhoeddus annigonol yn tanseilio nodau'r Cyngor o feithrin cymunedau cynaliadwy a chynhwysol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. | A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd digonol o ran cynllunio ei seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus? |

### Astudiaethau llywodraeth leol

26. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd i gynnal astudiaethau sy'n arwain at argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian wrth gyflawni swyddogaethau, gwasanaethau a rheolaeth ariannol a rheolaeth arall mewn llywodraeth leol. Bydd astudiaethau'r Archwilydd Cyffredinol mewn llywodraeth leol yn aml, ond nid bob amser, yn cynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau unedol a gallant fod yn rhan o astudiaeth drawsbynciol neu astudiaeth systemau cyfan ehangach.

27. Mae Arddangosyn 5 isod yn nodi'r gwaith i'w gyflawni fel rhan o'r rhaglen astudiaethau llywodraeth leol. Ariennir y gwaith hwn yn rhannol drwy grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ac yn rhannol drwy ffi perfformiad ac arolygu'r Cyngor.

**Arddangosyn 5: Astudiaethau Llywodraeth Leol**

| |
|---|
| Creu'r Cysylltiadau: Rheoli Adeiladau |
| Cyfnewidfa Arfer Da: Ffyrdd Callach o Weithio |
| Llywodraethu Da |

## Ardystio ceisiadau am grant a ffurflenni

28. Wrth gyflawni gwaith mewn perthynas â cheisiadau am grant y llywodraeth a ffurflenni eraill, o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Archwilwyr Penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu fel asiantau'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adennill, mewn perthynas â phob grant a ffurflen, swm sy'n cynnwys cost lawn y gwaith perthnasol a gynhaliwyd.

29. Codir taliadau ar gyfer y gwaith hwn ar sail y graddfeydd ffioedd sy'n ymwneud â sgiliau a nodwyd yn y llythyr ffïoedd llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff y ffioedd gwirioneddol a godir eu pennu mewn trafodaeth â chi a byddant yn adlewyrchu maint, cymhlethdod ac unrhyw faterion penodol o ran y grantiau dan sylw. Er bod gwaith grant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ar sail profiad blaenorol a threfniadau a gweithdrefnau presennol y Cyngor, amcangyfrifwn y bydd cyfanswm ffi'r gwaith grant rhwng £130,000 a £160,000.Pe bai gwelliannau yn cael eu gwneud i'r trefniadau cyffredinol, fel y nodwyd yn y Llythyr Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008, yna gellid lleihau'r ffi. Byddwn yn parhau i drafod y gwelliannau hyn, a'u heffaith, â swyddogion.

## Gwaith arall Swyddfa Archwilio Cymru

30. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni gwaith arall a fydd yn effeithio ar gynghorau fel y nodir yn Arddangosyn 6. Mae hyn yn cynnwys gwaith a gyflawnwyd fel rhan o:

- flaenraglen yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Pwyllgor Archwilio Llywodraeth y Cynulliad;
- gwaith pwrpasol.

**Arddangosyn 6: Blaenraglen yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio**

| |
|---|
| Tai fforddiadwy |
| Cyflwyno cylch ariannu 2007-2013 yr UE |
| Maeth mewn ysgolion |
| Gwaith dilynol ar reoli gwastraff |

## Gwaith rheoleiddwyr eraill

31. Arolygu Budd-daliadau Tai a Threth Gyngor - ariennir y gwaith hwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac mae'n seiliedig ar risg. Byddwn yn trafod cwmpas y gwaith hwn gyda chi fel rhan o'r gwaith cynllunio cyffredinol.

32. Bydd Estyn ac AGGCC hefyd yn cyflawni gwaith a all effeithio ar gynghorau. Disgrifir natur y gwaith hwnnw a'r pwerau deddfwriaethol sy'n ei ategu yn Atodiad 2.

33. Noda Arddangosyn 7 y gweithgarwch rheoleiddio arall sy'n hysbys ar hyn o bryd. Caiff y gwaith hwn a gwaith arall a all godi ei gynnwys pan ddiweddarir y Calendr Rheoleiddio.

34.

**Arddangosyn 7: Gweithgarwch rheoleiddio arall**

| | |
|---|---|
| **Estyn** | |
| Hydref 2009 | Arolygiad o Welliant Ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwasanaethau Cefnogol |
| **AGGCC** | |
| Hydref 2009 | Gwerthusiad Perfformiad |
| Ionawr 2009 | Gwasanaeth Maethu |
| I'w gadarnhau | Gwasanaeth Mabwysiadu |
| Parhaus | Arolygiad o'r holl wasanaethau cofrestredig |

## Atodiad 1

# Y Tîm Rheoleiddio

| Enw | Rôl | Ffôn | E-bost |
|---|---|---|---|
| Huw Lloyd Jones | Rheolwr Cydberthynas | 01248 681980<br>07813 822017 | huw.lloyd.jones@wao.gov.uk |
| Nigel Griffiths | Rheolwr Prosiect Perfformiad | 07798 503065 | nigel.griffiths@wao.gov.uk |
| Anthony Snow | Archwilydd Penodedig | 02920 320514 | anthony.snow@wao.gov.uk |
| Kevin Thomas | Partner Ymgysylltu Archwiliad Ariannol | 01244 525981<br>07799 133475 | kevinp.thomas@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Rheolwr Cleientiaid | 01286 679974 | amanda.hughes@wao.gov.uk |
| Arwyn Thomas | Estyn, Arolygydd Tîm Rhanbarthol | 02920 446500<br>01970 624512 | arwyn.thomas@estyn.gsi.gov.uk |
| Peter Graham | AGGCC, Arolygydd Rhanbarthol Gogledd Cymru | 01352 707900 | peter.graham@wales.gsi.gov.uk |

Atodiad 2

# Rolau a chyfrifoldebau

Ailsefydlwyd swydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O 1 Ebrill 2005, ehangodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnwys penodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff llywodraeth leol, a chynnal arolygiadau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella, o dan Ddeddf 1999.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Mae pwerau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol, a rôl y Rheolwr Cydberthynas, yn deillio o Ddeddf 1999 a chanllawiau ychwanegol fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf 2004 a Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

## Archwilwyr penodedig

Mae'n rhaid i archwilwyr penodedig gynnal archwiliad sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt o dan Ddeddfau 1999 a 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i'r archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau.

O dan Adran 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru gynhyrchu datganiadau cyfrifon blynyddol[1]. Mae Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad yn ategu'r rheoliadau hyn gyda chanllawiau i gynorthwyo cyrff llywodraeth leol i weithredu'r gyfundrefn gyfrifyddu. Ni fwriedir i'r canllawiau hynny fod yn rhan o'r fframwaith statudol ond maent yn sylwadaeth anffurfiol ac yn rhoi manylion ynghylch ble y gellir dod o hyd i godau cyhoeddedig a gydnabyddir yn gyffredinol sy'n nodi arferion priodol.

O dan Adran 13 o Ddeddf 2004, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru sicrhau yr archwilir eu cyfrifon gan un neu fwy o archwilwyr a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 14 o'r Ddeddf. Mae adrannau 17 a 23 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig archwilio ac ardystio'r cyfrifon, gan fodloni eu hunain:

- bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru);
- bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
- bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;

[1] Gwneir y rheoliadau hyn gan y Cynulliad o dan y pwerau statudol a geir yn Adran 39 o Ddeddf 2004.

- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu, cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth am safonau perfformiad fel sy'n ofynnol gan unrhyw gyfarwyddyd o dan Adran 47 o'r Ddeddf.

## Hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o faterion archwilio – Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260

Mae Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260:

- yn darparu canllawiau ar drosglwyddo gwybodaeth am faterion perthnasol sy'n ymwneud ag archwilio Datganiadau Ariannol rhwng archwilwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu corff a archwilir;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gyflwyno adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (yn wahanol i reolwyr) ar faterion penodol cyn iddynt roi barn ar y Datganiadau Ariannol.

Bydd yr Archwilydd Penodedig yn cyflawni'r cyfrifoldeb o gyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a, lle y bo angen, i'r Bwrdd yn amserol, cyn cwblhau archwiliad.

## Rheolwyr Cydberthynas

Nodir pwerau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddf 1999. Mae Deddf 1999 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau (a elwir yn Gynllun Gwella yng Nghymru). Noda Cylchlythyr 28/2005 Llywodraeth y Cynulliad sut y dylid rhoi Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar waith, yn cynnwys rôl y Rheolwr Cydberthynas.

## Rheoleiddwyr eraill

Cynhwysir y prif swyddogaethau a phwerau y mae AGGCC yn gweithredu oddi tanynt ym Mhennod 6 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Bydd Estyn fel arfer yn cytuno ymlaen llaw â phob cyngor ar ffocws ac amseriad arolygiadau gwasanaethau addysg o dan Adran 38 o Ddeddf Addysg 1997. Rhennir manylion yr arolygiadau hyn gyda'r Rheolwr Cydberthynas ac fe'u nodir yn y fersiwn cyntaf o'r cynllun rheoliadol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Mae gan Estyn bwerau hefyd o dan Ddeddf Addysg 2005 ac Adran 86 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Cynhelir arolygiadau eraill Estyn a allai gynnwys darpariaeth gan gynghorau o dan y pwerau hyn neu drwy gytundeb rhwng Estyn a'r Ganolfan Byd Gwaith. Sefydlwyd y cyfnod hysbysu ar gyfer yr arolygiadau hyn drwy gytundeb rhwng Estyn a darparwyr y gwasanaeth ym mhob sector. Gan fod y cyfnod hwn yn aml yn weddol fyr (tri mis fel arfer), nid yw'n bosibl cyhoeddi manylion unrhyw arolygiadau na hysbyswyd y darparwr ohonynt ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn yr achosion hyn, cyn gynted ag yr hysbysir y darparwr o'r arolygiad, rhoddir y manylion i Swyddfa Archwilio Cymru, a fydd yn diweddaru'r calendr rheoleiddio yn unol â hynny.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk